# Crynodeb o Gwricwlwn i Gymru : Ysgol Llangadog

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-greu drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a bydd yn bodloni'r gofynion canlynol :

**Ein gweledigaeth**

Bydd ein disgyblion yn iach ac yn hyderus ac yn dysgwyr gydol oes chwilfrydig a dyfeisgar sy'n cymryd rhan ac yn cyfrannu at y byd eang ac yn ymarfer gwerthoedd craidd yr ysgol: parch, empathi, cyfrifoldeb a chydweithrediad.

Bydd ein dysgwyr yn magu hyder yn eu hunaniaeth wrth iddynt archwilio, arddangos, gwneud penderfyniadau a gwerthfawrogi sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu cefnogi i fod yn ddinasyddion creadigol, moesegol, galluog a gwybodus yn eu cymunedau.

**Ein gwerthoedd**

- Parch ac Ymddiriedaeth
- Lles a Gofal
- Hapusrwydd a Mwynhad
- Gwydnwch a Hyder
- Cymru a Chymreictod
- Cymuned a Chynefin
- Cymryd risg ac Arloesi
- Cefnogaeth a Chydweithio

**Ein cwricwlwm cynhwysol**

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

**Y pedwar diben**

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer ein cynllun cwricwlwm ysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod :

- ✓ yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- ✓ yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ✓ dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- ✓ unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

**Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**.**

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad o:

1. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
2. Celfyddydau Mynegiannol
3. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
4. Dyniaethau
5. Mathemateg a Rhifedd
6. Iechyd a Lles

**Dysgu, Dilyniant ac Asesu**

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol.

Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn Maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu yn cael ei wreiddio fel rhan gynhenid o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol.

**Cymraeg a Saesneg**

- Mae ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Cyflwynir gwersi Saesneg ym Mlwyddyn 3.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

**CCUHP – Hawliau Plant**

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP, ac o CCUHP, ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.

**CWRE : profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith**

Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ACRh**

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

**CGM : Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru

Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

**Adolygu a mireinio**

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Pennaeth : A Vaughan-Owen 07.07.2022

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: H Manley

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2023

YSGOL GYNRADD LLANGADOG

# Curriculum for Wales Summary : Ysgol Llangadog

Our curriculum has been co-constructed through engaging with all stakeholders and will meet the following requirements:

**Our vision**

Our learners will be healthy and confident as curious and resourceful life-long learners, who participate in and contribute to the global world and practise the core values of the school: respect, empathy, responsibility and cooperation.

Our learners will develop confidence in their identities as they explore, demonstrate, make decisions and value skills and knowledge that will support them to be creative, ethical, capable and informed citizens of their communities.

**Our values**

- Respect and Trust
- Wellbeing and Care
- Happiness and Enjoyment
- Resilience and Confidence
- Wales and Welshness
- Community and Habitat
- Take risks and Innovate
- Support and Collaboration

**Our inclusive curriculum**

Our curriculum will raise the aspirations for all learners. As a school we have considered how all learners will be supported to realise the four purposes and to progress. We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners.

**The four purposes**

The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

**The statements of what matters**

Our curriculum will provide opportunities and experiences to develop the key concepts, knowledge and skills as described in the statements of what matters and in line with the Statements of What Matters Code.

**Areas of Learning and Experience**

Our curriculum will provide learning experiences through the 6 AoLEs of:

- Languages, Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Humanities
- Maths and Numeracy
- Health and Wellbeing

**Learning, Progression and Assessment**

Our curriculum will support learning through designing learning opportunities that draw upon the pedagogical principles.

Our curriculum, supported by effective teaching and learning enables learners to make meaningful progress. Over time our learners will develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to make progress in a given Area or discipline and how learners should deepen and broaden their knowledge and understanding, skills and capacities, and attributes and dispositions and is informed by the Progression Code. This in turn supports our approach to assessment, the purpose of which is to inform planning for future learning. Assessment will be embedded as an intrinsic part of learning and teaching. All learners will be assessed on entry to the school.

**Welsh and English**

Schools providing Welsh-medium education use Welsh to deliver the curriculum. English lessons are introduced in Year 3.

**Cross curricular skills**

Our curriculum will develop the mandatory cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and capability in these skills and to extend and apply them across all Areas. Learners will be given opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking and writing skills
- be able to use numbers and solve problems in real-life situations
- be confident users of a range of technologies to help them function and communicate effectively and make sense of the world

**UNCRC : The Rights of the Child**

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRPD, among those who provide teaching and learning.

**CWRE : Careers and Work-related Experiences**

Our curriculum will incorporate careers and work related experiences for all of our learners.

**Relationship and Sexuality Education RSE**

Our school curriculum embraces the guidance in the RSE Code. Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a *whole-school approach*. Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy.

**Religion Values and Ethics RVE**

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16.

There is **no parental right** to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales

As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus specifies what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect this guidance.

**Review and refinement**

Our school curriculum will be kept under review in order to respond to the outputs of professional inquiry, the changing needs of learners and social contexts and needs. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be signed off by the Governing Body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes to the curriculum are made during the review process.

Headteacher : A Vaughan-Owen 07.07.2022

Chair of Governors: H Manley

Review date: July 2023

YSGOL GYNRADD LLANGADOG